Cyngor Sir CEREDIGION

ADRODDIAD I'R:	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
DYDDIAD:	**9 Medi 2021**
LLEOLIAD:	**O bell drwy gynhadledd fideo**
TEITL:	**Adroddiad ynghylch Cynnydd o ran Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-2022 a Chynllun Gweithredu'r Flwyddyn Gyfredol**
PWRPAS YR ADRODDIAD:	**Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch cynnydd o ran Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-2022 a Chynllun Gweithredu'r Flwyddyn Gyfredol** **Er gwybodaeth**
Portffolio Cabinet a'r Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Ray Quant, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a Gwasanaethau Democrataidd**

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2021, bu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2020-2021. Cafodd y Datganiad drafft ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 18 Mawrth 2021 a bydd yn cael ei gyhoeddi ar ôl iddo gael ei archwilio gan Archwilio Cymru yn rhan o'r Datganiad o Gyfrifon.

Mae'r Datganiad drafft cyfredol yn cynnwys cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer 2021-2022, sy'n cynnwys y camau gweithredu canlynol:

- Bydd y Swyddog Monitro yn cynghori'r Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgan buddiannau mewn sefydliadau sydd neu a allai fod yn gwrthdaro â buddiannau'r Cyngor, sy'n cynnwys:
    - Contractwyr;
    - Llywodraethwyr ysgol;
    - Clercod cynghorau tref a chymuned; ac
    - Aelodau cynghorau tref a chymuned.
- Bydd y Swyddog Monitro a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd yn parhau i gynnal adolygiad o'r Aelodau sy'n dal swyddi cyfarwyddwyr, swyddi ymddiriedolwyr neu aelodaeth pan gânt eu penodi i gyrff allanol a phwyllgorau. Bydd y Swyddog Monitro yn ystyried adborth yr Aelodau a gwerth ychwanegol ac yn parhau i ddiweddaru'r Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion ac Aelodau.
- Bydd y Swyddog Monitro a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd yn parhau i gynnal adolygiad o'r Aelodau sy'n dal swyddi cyfarwyddwr, swyddi ymddiriedolwr neu aelodaeth pan gânt eu penodi i gyrff allanol, ac i bwyllgorau.

Bydd y Swyddog Monitro'n ystyried adborth gan yr Aelodau a gwerth ychwanegol a bydd yn parhau i ddiweddaru Cod Ymddygiad yr Aelodau a'r Swyddogion.

- Bydd y Swyddog Monitro yn cynghori'r Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgan
    - swyddi cyfarwyddwyr; a
    - chyflogaeth arall

  p'un a ydynt yn gwrthdaro â buddiannau'r Cyngor ai peidio.
- Bydd y Swyddog Monitro yn parhau i gynghori'r Aelodau ymhellach am yr angen i ddatgan lletygarwch/rhoddion.
- Bydd y Swyddog Monitro yn cynghori'r Prif Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgan cysylltiadau personol agos â Swyddogion neu Aelodau eraill.
- Bydd y Grŵp Arweiniol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am e-ddysgu a bydd yr Adran Adnoddau Dynol yn cyflwyno adroddiadau i'r Grŵp Arweiniol (rhaid i bob aelod o staff gwblhau modiwl hyfforddiant e-ddysgu gorfodol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015).
- Parheir i adolygu'r Cyfansoddiad yn ôl yr angen ac er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol.
- Mae'r Cyngor yn paratoi i gydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n cynnwys yr angen i'r Cyngor ymgynghori ynghylch strategaeth cyfranogiad y cyhoedd a chyhoeddi strategaeth o'r fath er mwyn cynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol a gwella tryloywder, ac o safbwynt y Pwyllgor Archwilio (sef y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio erbyn hyn) (bydd ei gylch gorchwyl, ei faes gwaith a'i gyfansoddiad yn cael eu hadolygu). Mae'r newidiadau yn cynnwys:
    - newid yr enw i 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio';
    - sicrhau bod 2/3 o'r aelodau yn Gynghorwyr a bod 1/3 o'r aelodau yn lleygwyr (fel y diffinnir yn y Ddeddf);
    - dyletswydd y Pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Is-gadeirydd ei hun;
    - rhaid bod y Cadeirydd yn lleygwr;
    - rhaid nad yw'r Is-gadeirydd yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol; ac
    - yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, dim ond aelodau anweithredol all gadeirio cyfarfodydd.
- Caiff Cofrestr o Benderfyniadau Dirprwyedig ei chyhoeddi.
- Parheir i fonitro'r nifer sy'n gwneud y modiwl e-ddysgu gorfodol ynghylch chwythu'r chwiban (mae'n is na'r gofyn ar hyn o bryd).
- Caiff y Polisi Cwynion / Canmoliaeth ei adolygu yn ystod 2020-2021.
- Caiff hyfforddiant ynghylch moeseg / twyll ei ddarparu.
- Bydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn effeithio ar gyrff corfforaethol, gan gynnwys y Cyngor, ac mae paratoadau ar y gweill i gydymffurfio â hi.
- Mae'r Polisi Rhyddid Gwybodaeth a'r Polisi Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol wedi'u diweddaru. Mae adolygiad o'r Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth ar y gweill.
- Oherwydd y pandemig Covid-19, mae angen ar hyn o bryd i benderfyniadau gael eu gwneud gan y Grŵp Rheoli Aur oherwydd bod argyfwng. Felly, nid yw'n bosibl

ymgynghori yn y gymuned ar hyn o bryd yn achos llawer o wasanaethau, ac o ganlyniad mae'r sgôr wedi'i diwygio er mwyn adlewyrchu hynny. Mae'r Polisi Ymgysylltu â'r Gymuned yn cael ei adolygu a bydd yn cynnwys darpariaethau ynghylch y modd yr ymgysylltir â rhanddeiliaid yn y dyfodol.

- Mae angen gwneud rhagor o waith ar fonitro adborth a bydd y swydd newydd sy'n ymwneud â Chydraddoldebau ac Ymgysylltu yn mynd i'r afael â hynny.
- Bydd gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau'n cael ei chyhoeddi, gan gynnwys data am gostau a gwerth am arian.
- Caiff newidiadau deddfwriaethol eu hystyried, e.e. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo er mwyn cysylltu mesurau perfformiad lleol â holl amcanion lefel 1 y Cynllun Busnes.
- Mae adolygiad o faint y Pwyllgor Archwilio (sef y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio erbyn hyn) ar y gweill. Bydd aelodau lleyg yn cael eu recriwtio yn ystod 2020/21, gan ystyried gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a'r adeg y bydd cyfnod yr aelod lleyg presennol yn ei swydd yn dod i ben.
- Caiff cynnydd yng nghyswllt camau gweithredu/argymhellion ei fonitro.

Cyflwynwyd Adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynglŷn â'r cynnydd a wnaed o ran Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-2022 a'r Cynllun Gweithredu (gallwch weld yr adroddiad drwy fynd at:
https://council.ceredigion.gov.uk/documents/s1591/8%20AGS%20s.pdf?LLL=0 a gallwch weld cofnodion drafft y cyfarfod drwy fynd at:
https://council.ceredigion.gov.uk/documents/g206/Printed%20minutes%2003rd-Jun-2021%2009.30%20Governance%20and%20Audit%20Committee.pdf?T=1&LLL=0)
Cytunodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch y canlynol:
(i) nodi'r adroddiad ynghylch cynnydd ar sail y camau gweithredu a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol; ac
(ii) y byddai'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor bob chwarter yn y dyfodol.

Mae adolygiad o Fframwaith Llywodraethu Blynyddol 2021/2022 ar waith a chaiff gweithdy gydag Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r swyddogion priodol ei gynnal ym mis Tachwedd / Rhagfyr fel y gellid paratoi datganiad drafft i'w gymeradwyo yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr 2022.

ARGYMHELLION:

Ystyried yr adroddiad gan bwyso a mesur y cynnydd a wnaed o ran y camau gweithredu ar gyfer 2021/2022 fel y maent wedi'u nodi yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/2021.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLION: Er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael eu symud yn eu blaen fel bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael y sicrwydd y mae arno ei angen bod gwelliannau'n cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn.

Atodiadau:	**Atodiad 1**: Diweddariad ynghylch Cynnydd o ran Cynllun Gweithredu Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-2022
Pennaeth y Gwasanaeth:	Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro
Swyddog Adrodd:	Hannah Rees
Dyddiad:	9/8/2021

Atodiad 1

Cynllun Gweithredu ar gyfer materion i'w hystyried yn ystod 2021-2022

Mater	Cynnydd hyd yn hyn	Swyddog Arweiniol	Dyddiad Cwblhau
(A1.1) Sicrhau bod Aelodau a Swyddogion yn ymddwyn yn gywir ac yn arwain diwylliant lle mae gweithredu er budd y cyhoedd i'w weld yn amlwg ac yn gyson, gan warchod enw da'r sefydliad. Gweithredu: Y Swyddog Monitro i gynghori Swyddogion ymhellach ar yr angen i ddatgan buddiannau o fewn sefydliadau sydd, neu a allai, wrthdaro â buddiannau'r Cyngor, gan gynnwys: • Contractwyr; • Llywodraethwyr Ysgol; • Clercod Cynghorau Tref a Chymuned ;	Mae hon yn ddyletswydd barhaus. Bydd gan y Pwyllgorau Moeseg a Safonau ddyletswyddau newydd (o Mai 2022) dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan gynnwys: • Monitro'r modd y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor yn cydymffurfio â'u dyletswyddau dan A.52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000; • Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor ar faterion sy'n gysylltiedig â'u dylestwyddau dan A.52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000. • Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor mewn perthynas â'r flwyddyn hon yn unol â 56B Pennod 1 Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae'r ddyletswydd i fonitro'r modd y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn cydymffurio mewn perthynas â safonau ymddygiad, ac mae'n un ffordd i'r Cyngor sicrhau bod Aelodau'n ymddwyn yn onest ac yn arwain diwylliant lle mae gweithredu er budd y cyhoedd i'w weld yn amlwg a chyson, i warchod enw da'r Cyngor.	EP/LE	Mawrth 2022

DRAFT

Mater	Cynnydd hyd yn hyn	Swyddog Arweiniol	Dyddiad Cwblhau
• Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned; a • Llywodraethwyr Ysgol SM a SAC Gwasanaethau Democrataidd i barhau i gynnal adolygiad o Aelodau sy'n gyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr neu aelodau wrth benodi ar gyfer cyrff allanol, a phwyllgorau. SM i ystyried adborth gan aelodau a gwerth ychwanegol a pharhau i ddiweddaru'r Cod ymddygiad ar gyfer Swyddogion ac Aelodau. Y Swyddog Monitro i gynghori Swyddogion ymhellach ar yr angen i ddatgan: • Swyddi Cyfarwyddwr; a • Cyflogaeth arall Gan gynnwys p'un ai yw'n gwrthdaro â buddianau'r Cyngor ai peidio. Y Swyddog Monitro i barhau i gynghori Aelodau ymhellach ar yr	Mae'r Swyddog Monitro'n cynghori Swyddogion ynghylch datgan buddiannau yn barhaus, a gwneir hyn yn rheolaidd drwy Newyddion a Diweddariadau ar system Cerinet. Ar 20 Gorffennaf 2021, cyhoeddwyd diweddariad ar Ddatgan a Chofrestru Lletygarwch a Buddiannau Gweithwyr y Cyngor ar safle Cerinet gan gynnwys y dolenni i'r ffurflenni perthnasol a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol ynghyd â nodyn yn atgoffa y dylid cyflwyno unrhyw ymholiadau neu geisiadau am gyngor i'r Swyddog Monitro. Ar 8 Ionawr 2021, cyhoeddwyd diweddariad ar Ddatgan a Chofrestru Buddiannau Gweithwyr gan gynnwys Grantiau Arthdrethi Annomestig y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau COVID 19 ar safle Cerinet. Mae adolygiad ar droed o'r cyrff allanol sydd wedi penodi Aelodau, gan gynnwys gwerth ychwanegol, yn ogystal â diweddaru'r Cyfansoddiad. Mae adolygiad trylwyr o'r Cod Ymddygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd drwy alw cyfarfodydd rheolaidd a chael mewnbwn oddi wrth y Swyddog Monitro, y Swyddog Llywodraethu, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth a'r Swyddog Diogelu Data a Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion. O ran adborth Aelodau, mae'r Swyddog Monitro'n dosbarthu, ymhlith arweinwyr grwpiau gwleidyddol, ddiweddariadau/penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru, sef y tribiwnlys annibynnol sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch achosion honedig o dorri rheolau ymhlith aelodau etholedig a chyfethol Cynghorau yng Nghymru, gan gynnwys		

Mater	Cynnydd hyd yn hyn	Swyddog Arweiniol	Dyddiad Cwblhau
angen i ddatgan lletygarwch/rhoddion. Y Swyddog Monitro i gynghori Prif Swyddogion ymhellach ar yr angen i ddatgan: • cysylltiadau personol agos â Swyddogion neu Aelodau eraill.	cynghorau sir, mewn perthynas â chod ymddygiad statudol eu hawdurdod. Nid yw'r Swyddog Monitro wedi derbyn unrhyw adborth gan y Panel ynghylch Aelodau'r Cyngor, ac mae yna werth ychwanegol i waith y panel, am ei fod yn berthnasol i Aelodau sydd â rolau megis cyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr, aelodau o bwyllgorau ac ati – mae'r gweithredu hwn, felly, yn un parhaus. Fel uchod, mae'r Swyddog Monitro'n cynghori Swyddogion ynghylch datgan buddiannau yn barhaus, a gwneir hynny'n rheolaidd drwy Newyddion a Diweddariadau ar system Cerinet a negeseuon atgoffa yng nghyfarfodydd y Grŵp Arweiniol. Cafodd Prif Swyddogion wybod, drwy ddiweddariad ar system Cerinet, am yr ebost diweddaraf oddi wrth y Swyddog Monitro am ddatgan buddiannau a lletgarwch. Anfonwyd nodyn atgoffa i Brif Swyddogion hefyd, ac mae'r gwaith hwn yn barhaus. Mae Aelodau/Prif Swyddogion yn datgan buddiannau yn eu datganiadau blynyddol, sy'n gyfle i gyfeirio at unrhyw gysylltiadau/rolau personol agos ac ati, ac mae cyfleoedd i wneud datganiadau ar adegau eraill, gan gynnwys ar ddechrau cyfarfodydd yn y ffordd arferol.		
(A1.3) Arwain drwy esiampl a defnyddio'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu safonol hyn fel fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau a chamau eraill. Gweithredu:	Cyflwynwyd y modiwl e-ddysgu gorfodol ym Medi 2017 a hyd at 31 Mawrth 2021 mae wedi'i gwblhau gan 2,592 o weithwyr. O'r rhain	GE	Mawrth 2022

DRAFT

Mater	Cynnydd hyd yn hyn	Swyddog Arweiniol	Dyddiad Cwblhau
Y Grŵp Arweinyddiaeth i gael ei ddiweddaru ar e-ddysgu, gydag Adnoddau Dynol yn adrodd i'r Grŵp Arweinyddiaeth (rhaid i'r holl staff gwblhau'r modiwl hyfforddiant e-ddysgu gorfodol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015) Parhau i adolygu'r Cyfansoddiad i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ac yn ôl yr angen.	cwblhaodd 303 o weithwyr y modiwl cyfrwng Cymraeg, a 2,289 y modiwl cyfrwng Saesneg. Yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021, cwblhaodd cyfanswm o 493 o weithwyr y modiwl e-ddysgu, 92 trwy gyfrwng y Gymraeg a 399 trwy gyfrwng y Saesneg. Mae nodyn atgoffa'n cael ei anfon at staff sydd heb wneud y modiwl eto, a bydd y Grŵp Arweinyddiaeth yn derbyn adroddiadau bob hyn a hyn ar gwblhau modiwlau e-ddysgu gorfodol. Mae adolygu'r Cyfansoddiad i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol yn ôl yr angen yn dasg barhaus, am fod y Cyfansoddiad yn ddogfen fyw. Cafodd diwygiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad eu cyflwyno ddiwethaf i'r Cyngor yng Nghyfarfod 18fed Mawrth 2021, a chyn hynny, yng Nghyfarfod 16eg Hydref 2020. Mae Gweithgor Cyfansoddiad Trawsbleidiol y Cyngor yn cwrdd yn rheolaidd, a chynhaliwyd cyfarfodydd ar 15fed Chwefror 2021, 19eg Ebrill 2021, 30ain Mehefin 2021 a 10fed Awst 2021.	EP/HR	Mawrth 2022
(A1.4) Arddangos, cyfathrebu a mewnblannu'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu safonol hyn drwy bolisïau a phrosesau priodol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol. Gweithredu:			Mawrth 2022

DRAFT

Mater	Cynnydd hyd yn hyn	Swyddog Arweiniol	Dyddiad Cwblhau
Mae'r Cyngor wrthi'n paratoi i gydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mewn perthynas â'r Pwyllgor Archwilio (cylch gorchwyl a chyfansoddiad i'w hadolygu): Mae'r newidiadau'n cynnwys: - newid yr enw i 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'; - yr Aelodaeth i fod yn 2/3 Cynghorwyr ac 1/3 Aelodau Lleyg (fel y'u diffinnir yn y Ddeddf); - Dyletswydd y Pwyllgor yw penodi ei Gadeirydd a'i Is-gadeirydd ei hun; -Rhaid i'r Cadeirydd fod yn berson lleyg; -Ni chaiff yr Is-gadeirydd fod yn aelod o Weithrediaeth yr Awdurdod Lleol; ac - yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, dim ond Aelodau anweithredol all Gadeirio.	Cyflwynwyd newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad gerbron Gweithgor Cyfansoddiad Trawsbleidiol y Cyngor ar 19eg Ebrill 2021, 30ain Mehefin 2021 a 10fed Awst 2021. Cytunodd y Gweithgor wneud argymhellion priodol i'r Cyngor. Bydd adroddiad ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor ar 23ain Medi 2021. Cyflwynwyd adroddiad arall ynglŷn â'r newidiadau sy'n ymwneud â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gerbron cyfarfod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ar 3 Mehefin 2021 gan gynnwys diweddariadau i'r cyfansoddiad a gwybodaeth am y gofynion i Gydbwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru sefydlu Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Hefyd, cyflwynwyd adroddiad ar newidiadau dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n effeithio ar y Pwyllgor yng Nghyfarfod y Pwyllgor ar 24ain Chwefror 2021, gan gynnwys recriwtio aelodau lleyg i'r Pwyllgor. Yna cafodd y newidiadau a'r cynigion hyn ar recriwtio eu cyflwyno gerbron, a'u cymeradwyo gan y Cyngor ar 18fed Mawrth 2021. Nododd y Cyngor gynnwys yr Adroddiad, a'r dyddiadau gweithredu perthnasol, a chymeradwyo: b) newid enwi'r Pwyllgor Archwilio i Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a'r swyddogaethau ychwanegol o ran perfformio a thrafod cwynion oedd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2021; c) dechrau'r broses o recriwtio aelodau lleyg annibynnol ar gyfer y Pwyllgor Archwilio; d) y cynigion ar gyfer y Panel Dewis Rhestr Fer; a'r e) Disgrifiad o'r Rôl a'r Manyleb Person.	EP/AW/HR	Mawrth 2022

DRAFT

Mater	Cynnydd hyd yn hyn	Swyddog Arweiniol	Dyddiad Cwblhau
• Cofrestr Penderfyniadau Dirprwyedig i'w chyhoeddi.	Cyflwynwyd adroddiad am faint y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ar 21 Mai 2021. Cytunodd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i argymell i'r Cyngor y dylai 6 Aelod o'r Cyngor Sir a 3 aelod lleyg (cyfanswm o 9) fod ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Ar ôl hynny, cyflwynwyd adroddiad am faint y Pwyllgor I'r Cyngor ar 17 Mehefin 2021 a chytunodd y Cyngor y dylai naw aelod fod ar y Pwyllgor o 5 Mai 2022 ymlaen. Mae'r broses recriwtio ar droed erbyn hyn.		
• Parhau i fonitro'r niferoedd sy'n cwblhau'r modiwl Chwythu'r Chwiban gorfodol. Ar hyn o bryd yn is na'r gofyn.	Mae'r gwaith o gyhoeddi'r gofrestr penderfyniadau dirprwyedig yn barhaus. Mae Log Penderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur, sef y gofrestr penderfyniadau, wedi'i gyhoeddi a'i ddiweddaru bob chwarter, wedi'i gyflwyno gerbron y Grŵp Rheoli Aur (i'w gymeradwyo) ac ar ôl hynny i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu (yn fwyaf diweddar ar 16 Mehefin 2021, a chyn hynny ar 20 Ionawr 2021) a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mewn perthynas â phenderfyniadau dirprwyedig eraill, mae penderfyniadau dirprwyedig y Pwyllgor Rheoli Datblygu'n cael eu cyhoeddi ar gyfer pob Pwyllgor Rheoli Datblygu unigol. Mae unrhyw waith arall o ran gwneud penderfyniadau ar droed.	MNH	
• Y polisi Cwynion / Canmoliaeth i'w adolygu yn ystod 2020-2021.		AR	
Darparu Hyfforddiant Moeseg / Twyll.	O ran y modiwl e-ddysgu gorfodol Chwythu'r Chwiban, cwblhaodd 744 o staff y Modiwl yn 2019/2020 a chwblhaodd 379 o staff y Modiwl yn 2020/21.		

DRAFT

Mater	Cynnydd hyd yn hyn	Swyddog Arweiniol	Dyddiad Cwblhau
	Mae'r Polisi Cwynion Corfforaethol yn cael ei adolygu. Cyflwynwyd y polisi newydd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 7 Gorffennaf a bydd y polisi yn mynd gerbron y Cyngor ar 23 Medi. Mae'r modiwl hyfforddiant Moeseg/Twyll, a baratowyd ar y cyd â Zurich (yswiriwr y Cyngor), wedi'i gwblhau erbyn hyn. Cyflwynwyd yr hyfforddiant gan Anthony Connolly o Zurich ar 28 Mai 2021 yng ngweithdy chwarterol y Rheolwyr Corfforaethol. Caiff sleidiau'r cyflwyniad eu defnyddio wrth baratoi modiwl e-ddysgu ar gyfer pob aelod o staff. Mae'r gwasanaethau Archwilio Mewnol a Llywodraethu ar hyn o bryd yn trafod y cynnwys a'r gofynion gyda'r Tîm Dysgu a Datblygu. Mae hyn yn cael ei gefnogi ymhellach gan yr adolygiad diweddar o Strategaeth y Cyngor ar Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian). Mae archwiliad mewnol dilynol o drefniadau'r Cyngor mewn perthynas â Moeseg hefyd ar droed.		
(A3.1) Sicrhau bod aelodau a Staff yn arddangos ymrwymiad cadarn i reol y gyfraith, yn ogystal â chadw at y cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol. Gweithredu:		EP	Mawrth 2022

DRAFT

Mater	Cynnydd hyd yn hyn	Swyddog Arweiniol	Dyddiad Cwblhau
Bydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru (2021) yn cael effaith ar gyrff corfforaethol, gan gynnwys y Cyngor, ac mae paratoadau i gydymffurfio ar droed.	Fel uchod, mae'r gofyniad i gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn un parhaus, gan gynnwys trwy'r Gweithgor Cyfansoddiad Trawsbleidiol (aelodau o bob grŵp gwleidyddol yn mynychu), adroddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a'r Cyngor, gyda Chynllun Gweithredu gan y Cyngor yn cael ei baratoi a'i ddiweddaru'n rheolaidd, a chyfarfodydd gyda Swyddogion a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol perthnasol yn cael eu cynnal fel bo'n briodol.		
(B1.1) Sicrhau diwylliant agored drwy arddangos, dogfennu a chyfleu ymrwymiad y sefydliad i weithredu mewn ffordd agored. Gweithredu: Y polisi Rhyddid Gwybodaeth a'r polisi Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol wedi'u diweddaru. Cynllun Cyhoeddi ar droed.	Bwriedir cynnal adolygiad o'r Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.	AW/MNH	Mawrth 2022
(B3.1) Sefydlu polisi clir ar y mathau o faterion y bydd y sefydliad yn ymgynghori'n ystyrlon arnynt, neu'n cynnwys dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod y gwasanaeth (neu arall) a	Mae tudalen Ymgysylltu, Ymgynghoriadau a Phartneriaethau Cymunedol wedi'i chreu ar y safle Cerinet newydd: https://cerinet.ceredigion.gov.uk/our-council/community-engagement-consultation-and-partnerships/# Mae hon yn cynnwys dolenni i fersiynau cyfredol o'n Polisi Ymgysylltu Cymunedol, Rhestr Wirio Ymgysylltu ac Ymgynghori, Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaethau, ac Arf Ymgynghori ar Benderfyniadau.	AW/LE/MS	Mawrth 2022

DRAFT

Mater	Cynnydd hyd yn hyn	Swyddog Arweiniol	Dyddiad Cwblhau
ddarperir yn cyfrannu tuag at gyflawni'r canlyniadau a fwriedir. Gweithredu: Oherwydd pandemig Covid-19, mae angen i'r penderfyniadau gael eu gwneud ar hyn o bryd gan y Grŵp Rheoli Aur am resymau brys, felly mae'n amhosib ymgynghori'n gorfforol yn y gymuned ar hyn o bryd mewn perthynas â nifer o wasanaethau, ac o ganlyniad mae'r sgorio wedi'i ddiwygio i adlewyrchu hyn. Mae'r Polisi Ymgysylltu Cymunedol yn cael ei adolygu a bydd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y dyfodol.	Erbyn hyn mae holl Asesiadau Effaith Integredig y Cabinet yn cael eu hasesu gan y Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys p'un ai fu ymgysylltu, cynnwys ac ymgynghori effeithiol fel sylfaen ar gyfer ein penderfyniadau strategol. Mae Strategaeth Ymgysylltu newydd ddrafft ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion, sef 'Siarad, Gwrando a Chydweithio' ar y gweill. Y bwriad yw cyflwyno'r strategaeth hon gerbron pwyllgorau gwahanol i'w chymeradwyo dros yr hydref a'r gaeaf. Mae gwaith ar y gweill i baratoi Polisi Ymgysylltu â'r Gymuned a fydd yn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Bydd y Polisi hefyd yn nodi sut y byddwn ni'n annog pobl i fod yn rhan o'r prosesau gwneud penderfyniadau. Serch hynny, rydym yn aros am ganllawiau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r rhan hon o'r ddeddfwriaeth.		
(B3.4) Rhoi mecanweithiau adborth effeithiol ar waith i arddangos sut mae eu barn wedi cael ei hystyried.	Cofnodir yr adborth yn sgil ymgysylltu, a sut mae barn pobl wedi cael ei hystyried yn yr Asesiadau Effaith Integredig. Caiff adroddiadau ar ymgynghoriadau ac ymarferion ymgysylltu a gwblhawyd eu postio ar ein gwe-dudalen ymgynghoriadau cyhoeddus,	AW/MS	Mawrth 2022

DRAFT

Mater	Cynnydd hyd yn hyn	Swyddog Arweiniol	Dyddiad Cwblhau
Gweithredu: Mae angen gwaith pellach ar fonitro adborth, a bydd y swydd Cydraddoldeb ac Ymgysylltu newydd yn mynd i'r afael â hyn.	i ddarparu adborth ar gyfer y cyhoedd. http://www.ceredigion.gov.uk/your-council/consultations/ Caiff adroddiadau ynglŷn ag ymgynghori / ymgysylltu eu cyflwyno gerbron y Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet er mwyn cyfrannu at eu prosesau o wneud penderfyniadau.		
(C1.5) Rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau'n effeithiol mewn perthynas â phennu blaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Gweithredu: Rhoi cyhoeddusrwydd i berfformiad gwasanaethau, gan gynnwys data costau a gwerth am arian.	Mae data costau a gwerth am arian perthnasol yn cael ei ystyried yn rheolaidd o fewn adroddiadau gwasanaethau. Nid yw data costau a gwerth am arian yng nghyd-destun rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau ar gael ar gyfer, nac ym meddiant y Gwasanaeth Perfformio.	AW	Mawrth 2022 – Wedi'i gwblhau
(D2.3) Ystyried a monitro'r risgiau sy'n wynebu pob partner wrth weithio ar y cyd, gan gynnwys risgiau a rennir. Gweithredu: Rhoddir ystyriaeth i newidiadau deddfwriaethol e.e.	Fel uchod, mae gwaith ar droed i roi newidiadau deddfwriaethol, megis newidiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar waith ac ystyried/monitro'r risgiau sy'n wynebu pob partner wrth weithio	AW/EP	Mawrth 2022

DRAFT

Mater	Cynnydd hyd yn hyn	Swyddog Arweiniol	Dyddiad Cwblhau
Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.	ar y cyd, gan gynnwys risgiau a rennir. Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal a pharatoadau ar droed, er enghraifft, ynghylch gofyniad Deddf 2021 ar gyfer Gyd-bwyllgorau Corfforaethol, gan gynnwys risgiau posib a risgiau a rennir (mae grŵp Cyd-bwyllgor Corfforaethol wedi'i sefydlu, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 19eg Ebrill 2021, i ystyried y gofyniad i sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru, yn unol â Deddf 2021.)		
(D2.5) Sefydlu dangosyddion perfformiad lleol priodol (yn ogystal â dangosyddion statudol perthnasol neu ddangosyddion cenedlaethol eraill) fel rhan o'r broses gynllunio, i nodi sut y bydd perfformiad gwasanaethau a phrosiectau'n cael ei fesur. Gweithredu: Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i gysylltu mesurau Perfformiad Lleol â holl Amcanion Cynllun Busnes Lefel 1.	Mae proses Cynllunio Busnes 2021-22 yn cael ei rhoi ar waith, gyda Chynlluniau Busnes Lefel 1 yn cael eu rhannu â'r Tîm Perfformiad ac Ymchwil. Perfformiad: mae mesurau wedi'u nodi o fewn pob Cynllun Busnes Lefel 1, a fydd yn eu tro'n ddangosfwrdd adrodd ar gyfer pob gwasanaeth. Craffwyd ar y mesurau hyn ac maent wedi cael eu cymeradwyo gan yr uwch dîm arweiniol. Yna bydd y gwasanaethau'n adrodd yn erbyn y mesurau hyn fel rhan o'r broses rheoli perfformiad ar gyfer y flwyddyn.	AW	Mawrth 2022
(F3.5) Sicrhau pwyllgor archwilio neu grŵp neu swyddogaeth gyfatebol sy'n annibynnol o'r grŵp gweithredu ac yn atebol i'r corff llywodraethu: bydd yn darparu ffynhonnell bellach o sicrwydd	Fel uchod, mae gwaith ar droed mewn perthynas â newidiadau sy'n effeithio ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yng ngoleuni Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cael gwybod, mewn adroddiad yng Nghyfarfod 24ain Chwefror 2021, am y newidiadau i'w rôl mewn perthynas ag adroddiadau hunanasesu'r Cyngor, ac am asesiadau'r	EP/AR/HR	Mawrth 2022

DRAFT

Mater	Cynnydd hyd yn hyn	Swyddog Arweiniol	Dyddiad Cwblhau
effeithiol mewn perthynas â threfniadau rheoli risg a sicrhau amgylchedd rheoli effeithiol, fel bod argymhellion yn cael gwrandawiad ac yn arwain at weithredu. Gweithredu: Cylch gorchwyl a chyfansoddiad y Pwyllgor Archwilio i'w hadolygu yng ngoleuni Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Y newidiadau i gynnwys: - newid yr enw i 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'; - yr Aelodaeth i fod yn 2/3 Cynghorwyr ac 1/3 Aelodau Lleyg (fel y'u diffinnir yn y Ddeddf); - Dyletswydd y Pwyllgor yw penodi ei Gadeirydd a'i Is-gadeirydd ei hun; -Rhaid i'r Cadeirydd fod yn berson lleyg;	panel perfformiad, yn ogystal â'r newid enw, a newidiadau o ran y Cadeirydd/Is-gadeirydd a'r Cyfansoddiad. Cafodd adroddiad diweddaru ar Ddeddf 2021 ei gyflwyno gerbron cyfarfod y Pwyllgor ar 3 Mehefin 2021, gan gynnwys diweddariad ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y newidiadau i'r Cyfansoddiad sy'n effeithio ar y Pwyllgor, gan gynnwys: - Recriwtio aelodau lleyg a Chyd-bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Canolbarth Cymru a'r Is-bwyllgor Archwilio; ac - Ynghylch swyddogaethau'r Pwyllgor mewn perthynas ag: o adolygu ac asesu asesiad perfformiad y Cyngor; o ystyried adroddiad Hunanasesu blynyddol drafft y Cyngor; o ystyried unrhyw adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ac ymateb drafft y Cyngor; o adolygu swyddogaeth delio â chwynion y Cyngor; a'r o rôl mewn perthynas ag Asesiadau'r Panel Perfformiad (o Fai 2022). Mae gwaith ar droed i ddiweddaru cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel uchod, gan gynnwys cael sêl bendith y Gweithgor Cyfansoddiad Gwrthbleidiol. Caiff y newidiadau arfaethedig eu cyflwyno i gyfarfod y Cyngor ar 23 Medi.		

DRAFT

Mater	Cynnydd hyd yn hyn	Swyddog Arweiniol	Dyddiad Cwblhau
- Ni chaiff yr Is-gadeirydd fod yn aelod o Weithrediaeth yr Awdurdod Lleol; ac - yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, dim ond Aelodau anweithredol all Gadeirio. Mae adolygiad o faint y Pwyllgor Archwilio ar droed. Y broses o recriwtio aelod lleyg i ddigwydd yn ystod 2020/21, gan roi ystyriaeth i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a dod â chyfnod swydd yr aelod lleyg presennol i ben.			
(G1.1) Ysgrifennu a chyflwyno adroddiadau ar gyfer y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill mewn arddull ddealladwy sy'n briodol ar gyfer y gynulleidfa dan sylw, gan sicrhau eu bod yn hygyrch ac yn hwylus i'w cwestiynu. Gweithredu: Y Cyngor yn paratoi i weithredu'r newidiadau a gyflwynir	Mae gwaith ar y gweill i baratoi Polisi Ymgysylltu â'r Gymuned a fydd yn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Bydd y Polisi hefyd yn nodi sut y byddwn ni'n annog pobl i fod yn rhan o'r prosesau gwneud penderfyniadau. Serch hynny, rydym yn aros am ganllawiau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r rhan hon o'r ddeddfwriaeth. Mae'r Cyngor wedi bod allan i dendr ac mae wedi dyfarnu'r contract ar gyfer gosod yr offer newydd yn Siambr y Cyngor a fydd yn caniatáu i ni gynnal cyfarfodydd hybrid yn ogystal â'u darlledu. Bydd yr offer yn cael ei osod yn ystod yr haf / hydref.	LE/AM	Mawrth 2022

DRAFT

Mater	Cynnydd hyd yn hyn	Swyddog Arweiniol	Dyddiad Cwblhau
gan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan cynnwys bod y Cyngor yn ymgynghori ac yn cyhoeddi strategaeth cyfranogiad cyhoeddus, gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad cyhoeddus o fewn democratiaeth leol, a gweithredu mewn ffordd fwy agored.			
(G3.1) Sicrhau bod argymhellion ar gyfer camau unioni a wneir gan archwiliad allanol yn cael eu rhoi ar waith. Gweithredu: Monitro cynnydd camau gweithredu/argymhellion	'Protocol Archwilio Cymru' wedi'i ddogfennu a gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod 'Ffurflenni Ymateb Rheolwyr' i bob adroddiad gan Archwilio Cymru'n cael sylw, a bod ymatebion y gwasanaeth yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac Archwilio Cymru. Y Swyddog Llywodraethu yw pwynt cyswllt Archwilio Cymru ar gyfer Ffurflenni Ymateb y Rheolwyr 2019/20 a 2020/21 sydd heb eu cwblhau, a materion llywodraethu sy'n parhau / materion llywodraethu sy'n gysylltiedig â Ffurflenni Ymateb y Rheolwyr. Y Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol yw pwynt cyswllt Archwilio Cymru ar gyfer Ffurflenni Ymateb y Rheolwyr sy'n gysylltiedig â pherfformiad ynghyd â materion eraill sy'n ymwneud â pherfformiad. Mae'r drefn hon wedi'i nodi mewn protocol sydd wedi'i gymeradwyo gan y Grŵp Arweiniol a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Bydd fersiwn ddiweddaraf y Protocol (a fydd yn nodi bod y Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol wedi dechrau yn ei swydd) yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 9 Medi 2021.	EP/AW/SJ	Mawrth 2022

DRAFT

Mater	Cynnydd hyd yn hyn	Swyddog Arweiniol	Dyddiad Cwblhau
	Hefyd, mae cyfarfodydd misol yn cael eu cynnal gydag Archwilio Cymru i drafod y gwaith sy'n parhau a'r materion sydd i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.		

DRAFT